# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cyflwyniad i bolisi'r amgylchedd naturiol yng Nghymru yw hwn, gan ei gymharu â pholisïau'r amgylchedd naturiol yn rhannau eraill o'r DU

Mai 2012

Lansiwyd y Papur Gwyrdd, Cynnal Cymru Fyw ar 30 Ionawr 2012. Mae'r Papur Gwyrdd yn amlinellu dull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru gan gynnig newidiadau yn y modd y caiff yr amgylchedd naturiol ei reoli.

Mae'r papur hwn yn archwilio'r dulliau presennol o reoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru ac yn crynhoi'r newidiadau y mae'r Papur Gwyrdd yn eu cynnig. Yn ogystal â hyn, mae'r papur yn amlinellu sut y mae Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill yn ymdrin â'r amgylchedd naturiol ac yn  cymharu eu dulliau nhw o weithredu â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig yn y Papur Gwyrdd.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: **www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:


**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



**Rhif ymholiad:** 12/0451

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cyflwyniad i bolisi'r amgylchedd naturiol yng Nghymru yw hwn, gan ei gymharu â pholisïau'r amgylchedd naturiol yn rhannau eraill o'r DU

Mai 2012

Angela Watkins

Rhif dogfen: 12/018

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn diolch yn arbennig am y cymorth ariannol a roddwyd i Angela Watkins gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol a'r Ganolfan Hyfforddiant Doethurol ar Efelychu Systemau Cymhleth ym Mhrifysgol Southampton tra bu'n astudio yno ar leoliad, ac a ganiataodd iddi gwblhau'r papur hwn.

Gwasanaeth
Ymchwil

## Crynodeb

Ar 30 Ionawr 2012, lansiodd John Griffiths, y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Bapur Gwyrdd yn dwyn y teitl, *Cynnal Cymru Fyw*. Mae'r Papur Gwyrdd yn amlinellu dull newydd o reoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod y dulliau presennol o reoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru yn canolbwyntio gormod ar faterion penodol ac nad ydynt wedi llwyddo i'w reoli mewn ffordd gydgysylltiedig.

Mae rheoli'r amgylchedd naturiol yn faes sydd wedi'i ddatganoli i raddau helaeth ac mae wedi'i osod o fewn fframwaith sy'n cynnwys deddfwriaeth y DU a deddfwriaeth ddatganoledig. Yn ogystal â deddfwriaeth statudol genedlaethol a rhyngwladol, mae pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig (a Llywodraeth y DU yn achos Lloegr) hefyd yn cynhyrchu eu polisïau a'u strategaethau eu hunain ar gyfer datblygu, rheoli a rheoleiddio'r amgylchedd naturiol.

Mae'r Papur Gwyrdd yn cynnig y dylid gweithredu mewn pedwar maes allweddol: datblygu dulliau rheoli ar lefel yr ecosystem; creu un corff amgylcheddol; adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol a datblygu deddfwriaeth newydd; a datblygu Cynllun Rheoli Adnoddau Cenedlaethol. Nid yw'n glir a fydd y Papur Gwyrdd yn ychwanegu at Strategaeth Amgylcheddol bresennol Cymru a Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru ynteu'n eu disodli.

Mae'r cynigion ym Mhapur Gwyn Lloegr, sef *Natural Choice*, yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol, mewn cyferbyniad â'r amcanion datblygu cynaliadwy cyfunol (economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol) sydd wrth wraidd Papur Gwyrdd Cymru. Mae'r ddwy wlad yn hyrwyddo cymryd camau i hybu agweddau penodol ar fioamrywiaeth mewn dogfennau ar wahân sy'n ymwneud â strategaeth bioamrywiaeth.

Yn gyffredinol, mae polisi amgylchedd naturiol yr Alban yn dilyn fframwaith tebyg i hwnnw a geir yng Nghymru a Lloegr. Mae ganddynt Strategaeth gyffredinol ar lefel uchel a Strategaeth Bioamrywiaeth ar wahân yn ei hategu. Yn yr Alban, mae'r cynigion yn canolbwyntio ar ymchwilio i'r modd y gellid gwella'r dulliau presennol o gyflwyno'r strategaethau i gyflawni'r amcanion presennol, tra bo'r Papur Gwyrdd yn hyrwyddo newid ein hagwedd yn gyfan gwbl.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Ogledd Iwerddon strategaeth amgylchedd naturiol swyddogol. Y Strategaeth Bioamrywiaeth yw'r brif ddogfen bolisi ar gyfer gwaith yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol yn y wlad. Mae ganddi strategaeth datblygu cynaliadwy sy'n cynnig cyd-destun cyffredinol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, ond mae hon yn debycach i Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Cymru, sef, *Cymru Un Blaned,* na'r Papur Gwyrdd.

# Cynnwys


**1. Polisi'r Amgylchedd Naturiol ........ 1**

**2. Cyflwyniad i'r ddeddfwriaeth a'r polisïau presennol yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol ........ 3**

2.1. Deddfwriaeth ........ 3
2.2. Y Polisïau Presennol yng Nghymru ........ 4
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ........ 5
2.2.1. Y Trefniadau Presennol ........ 6

**3. Cynnal Cymru Fyw: dull newydd o weithredu ........ 8**

3.1. Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem ........ 8
3.2. Un Corff Amgylcheddol ........ 9
3.3. Newidiadau Deddfwriaethol Arfaethedig ........ 9
3.4. Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol ........ 10

**4. Polisi'r Amgylchedd Naturiol yn Lloegr ........ 12**

4.1. Y Dewis Naturiol: diogelu gwerth natur ........ 12
4.2. Polisi Bioamrywiaeth ........ 14
4.3. Adolygu Dulliau o Reoleiddio'r Amgylchedd ........ 14
4.4. Cymharu Polisïau Cymru a Lloegr ........ 15

**5. Polisi'r Amgylchedd Naturiol yn yr Alban ........ 17**

5.1. Getting the best from our land: A land use strategay for Scotland ........ 17
5.2. Polisi Bioamrywiaeth ........ 18
5.3. Cymharu Polisïau Cymru a'r Alban ........ 19

**6. Polisi'r Amgylchedd Naturiol yng Ngogledd Iwerddon ........ 21**

6.1. Everyone's Involved: Sustainable Development Strategy ........ 21
6.2. Polisi Bioamrywiaeth ........ 22
6.3. Cymharu Polisïau Cymru ac Iwerddon ........ 23

# Cyflwyniad i bolisi'r amgylchedd naturiol yng Nghymru gan ei gymharu â pholisïau'r amgylchedd naturiol yn rhannau eraill o'r DU.

## 1. Polisi'r Amgylchedd Naturiol

Ar 30 Ionawr 2012, lansiodd John Griffiths, y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Bapur Gwyrdd yn dwyn y teitl, ***Cynnal Cymru Fyw***[1] (sef y Papur Gwyrdd o hyn ymlaen). Mae'r Papur Gwyrdd yn amlinellu dull newydd o reoli'r amgylchedd naturiol sy'n wahanol iawn i ddulliau blaenorol. Mewn datganiad ysgrifenedig yn lansio'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyrdd, dywedodd y Gweinidog:

> Mae '*Cynnal Cymru Fyw'* yn ceisio safbwyntiau ar ffordd newydd o reoli a rheoleiddio'r amgylchedd yng Nghymru. Bydd mabwysiadu dull o reoli'n hadnoddau naturiol ar sail yr ecosystem yn golygu ystyried a rheoleiddio'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd yn hytrach na delio ag agweddau unigol ar wahân. Mae hefyd yn ystyried y manteisio a aal ddod o reoli'r amgylchedd yn well – i bobl, sywddi ac iechyd nawr ac yn y dyfodol[2].

Cyhoeddir y Papur Gwyrdd yng nghyd-destun adolygiadau gan yr UE o'r modd y mae Llywodraethau yn rheoli'r amgylchedd naturiol. Cynhaliwyd yr adolygiadau hyn **fel ymateb i fethiant yr UE i gyrraedd ei thargedau ar gyfer atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2010**[3]. Beirniadwyd dulliau blaenorol Llywodraethau o reoli'r amgylchedd naturiol am fod yn rhy ranedig ac yn rhy gyfyngedig ac yn ôl adroddiad gan Economeg Ecosystemau a Bioamrywiaeth (TEEB), mae'r ffaith nad yw marchnadoedd yn ystyried yn rhoi digon o ystyriaeth i werth gwasanaethau ecosystemau yn destun pryder nid yn unig i weinidogaethau'r amgylchedd, datblygu a newid hinsawdd, ond hefyd i weinidogaethau cyllid, yr economi a busnes.[4]'

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y dulliau presennol o reoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru wedi canolbwyntio'n ormodol ar faterion penodol ac nad ydynt wedi llwyddo i'w reoli mewn ffordd gydgysylltiedig.[5] Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r duedd flaenorol fyddai ymateb i broblemau yn yr amgylchedd naturiol dim ond wrth i sefyllfaoedd difrifol godi[6] . Mae'r Papur Gwyrdd ar y dull newydd yn nodi:

---

[1] Llywodraeth Cymru, ***Cynnal Cymru Fyw: Papur Gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru***, 30 Ionawr 2012 [fel ar 16 Chwefror 2012].
[2] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru***, 30 Ionawr 2012 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[3] Cymdeithas Ecolegol Prydain, ***EU announces new strategy to achieve 2020 biodiversity targets*** [fel ar 19 Mawrth 2012].
[4] ***The Economics of Ecosystems and Biodiversity for National and International Policy Makers – Summary: Responding to the Value of Nature***, 13 Tachwedd 2009 [fel ar 20 Mawrth 2012].
[5] ibid
[6] Llywodraeth Cymru, ***Cymru Fyw: Fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd,*** Medi 2010 [fel ar 21 Mawrth 2012]

> Mae angen inni bennu'n blaenoriaethau fel ein bod yn gwireddu'n well ganlyniadau strategol ein hymrwymiadau amgylcheddol Ewropeaidd ac yn ymdrin â'r risgiau a'r cyfleoedd sylfaenol sydd yn ein hwynebu yn hytrach na cheisio datrys symptomau unigol[7].

Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi na fydd y dull newydd o ymdrin â'r amgylchedd naturiol yng Nghymru yn gyfyngedig i bolisi penodol yn ymwneud â'r amgylchedd, ond bydd yn ymestyn ar draws pob agwedd ar waith y Llywodraeth.

Mae'r papur hwn yn archwilio'r dulliau presennol o reoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru ac yn crynhoi'r newidiadau y mae'r Papur Gwyn yn eu cynnig. Yn ogystal â hyn, mae'r papur yn amlinellu dulliau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill o ymdrin â'r amgylchedd naturiol ac yn eu cymharu â'r dulliau y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflwyno yn ei Phapur Gwyrdd.

[7] Llywodraeth Cymru, *Cynnal Cymru Fyw: Papur Gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru*, 30 Ionawr 2012, t2 [copi caled].

## 2. Cyflwyniad i'r ddeddfwriaeth a'r polisïau presennol yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol

### *2.1. Deddfwriaeth*

Mae'r gwaith o reoli a gwarchod yr amgylchedd naturiol yng Nghymru yn rhan o fframwaith **deddfwriaeth Ewropeaidd a deddfwriaeth y DU**. Mae'n rhaid i bob un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) gydymffurfio â dwy gyfarwyddeb sy'n ymwneud â chadwraeth natur[8]:

- *Cyfarwyddeb 2009/147/EC ar **Warchod Adar Gwyllt*** (Y Gyfarwyddeb Adar)[9];
- *Cyfarwyddeb 92/43/EEC ar **Warchod Cynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora*** (Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)[10].

Mae'r Gyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd **yn gwarchod anifeiliaid a chynefinoedd sy'n bwysig o ran cadwraeth yn Ewrop**, yn bennaf drwy ddynodi safleoedd cadwraeth a sefydlwyd drwy **rwydwaith Natur 2000**[11].

Yn ogystal â hyn, mae *Cyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 23 Hydref 2000, ar Sefydlu Fframwaith ar gyfer maes Polisi Dwr (*Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr) yn diogelu ffynonellau dŵr ecosystemau daearol a gwlypdiroedd[12]. *Mae Cyfarwyddeb 2008/56/EC ar sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu cymunedol ym maes polisi amgylcheddol morol* (Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol) yn cynnig fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli'r amgylchedd morol yn gynaliadwy drwy ddefnyddio dulliau'n seiliedig ar ecosystem[13].

Mae **rheoli'r amgylchedd naturiol** yn faes datganoledig i raddau helaeth ac mae wedi'i osod o fewn fframwaith deddfwriaeth Cymru a'r DU. Y prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n rheoli cadwraeth natur yn y DU (heb gynnwys Gogledd Iwerddon) yw ***Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981***[14] (y Ddeddf o hyn ymlaen). Mae'r Ddeddf yn diogelu rhywogaethau brodorol y DU a safleoedd a ddynodwyd oherwydd eu pwysigrwydd o ran gwarchod natur yn y DU, ac mae'n rheoli'r modd y caiff rhywogaethau anfrodorol eu rhyddhau.

Mae nifer o Ddeddfau eraill hefyd i'w cael. Yng Nghymru a Lloegr, mae *Deddf Cefn Gwlad Hawliau Tramwy 2000 (CroW)*[15] yn rhoi dyletswydd ar **Lywodraethau**

---

[8] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Deddfwriaeth Ewropeaidd***, [fel ar 13 Chwefror 2012].
[9] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Cyfarwyddeb Adar y Comisiwn Ewropeaidd***, [fel ar 23 Chwefror 2012].
[10] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Cyfarwyddeb Cynefinoedd y Comisiwn Ewropeaidd***, [fel ar 23 Chwefror 2012].
[11] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Rhwydwaith Natura 2000* , [fel ar 23 Chwefror 2012]. Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnwys safleoedd dynoedig Ewrop gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ( a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Adar), Ardaloedd o Ddiddordeb Arbennig (a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) a safleodd Ramsar (a ddynodwyd o dan Confensiwn Ramsar y Cenhedloedd Unedig).
[12] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr***, [fel ar 23 Chwefror 2012].
[13] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol*** [fel ar 16 Mawrth 2012].
[14] Llywodraeth y DU, ***Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981***, 30 Hydref 1981 [fel ar 23 Chwefror 2012].
[15] Llywodraeth y DU, ***Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000***, 30 Tachwedd 2000 [fel ar 23 Chwefror 2012].

**Cymru a'r DU** i ystyried bioamrywiaeth ac i restru cynefinoedd a rhywogaethau sydd i'w blaenoriaethu o ran gweithredu ym maes cadwraeth[16]. Mae *Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006*[17] yn rhoi dyletswydd ychwanegol ar holl **awdurdodau cyhoeddus** Cymru a Lloegr i ystyried gwarchod bioamrywiaeth, cyhyd ag y bo hynny'n caniatáu iddynt arfer eu swyddogaethau'n briodol[18]. Yn achos yr amgylchedd morol, mae *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*[19] yn gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli a diogelu amgylcheddau'r môr a'r arfordir, gan roi dyletswydd ar Lywodraethau Cymru a Lloegr i sicrhau bod adnoddau morol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy . Mae hefyd yn rhoi'r pŵer iddynt ddynodi safleoedd morol oherwydd eu gwerth o ran gwarchod natur[20].

Yn ogystal â deddfwriaeth statudol genedlaethol a rhyngwladol, mae pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig (a Llywodraeth y DU yn achos Lloegr) hefyd yn cynhyrchu eu polisïau a'u strategaethau eu hunain o ran datblygu, rheoli a rheoleiddio'r amgylchedd naturiol.

## *2.2. Y Polisïau Presennol yng Nghymru*

Mae'r gwaith o reoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru wedi'i osod ar hyn o bryd yng nghyd-destun ***Strategaeth Amgylcheddol Cymru***[21] (Strategaeth Cymru o hyn ymlaen). Mae Strategaeth Cymru yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu'r amgylchedd yn yr hirdymor ac yn manylu ar y weledigaeth a'r problemau sy'n ein hwynebu o ran gwarchod a diogelu'r amgylchedd naturiol hyd at 2026. Mae hefyd yn gosod allan canlyniadau ar gyfer monitro cynnydd. Mae Strategaeth Cymru yn cyflwyno **pum thema amgylcheddol allweddol**: y newid yn yr hinsawdd, defnyddio adnoddau'n gynaliadwy; bioamrywiaeth, tirweddau a morweddau; yr amgylchedd lleol; a pheryglon amgylcheddol.

Cyhoeddwyd ***Cynlluniau Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol***[22] i ategu Strategaeth Cymru. Cyhoeddwyd dau ohonynt, ac roedd yr ail ( y Cynllun Gweithredu o hyn ymlaen) yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2008 a 2011. Roedd y Cynlluniau Gweithredu'n rhoi gwybodaeth fanwl am dargedau a'r cyrff a oedd yn gyfrifol am gyrraedd pob targed. Cynigiodd 10 maes â blaenoriaethau ynghyd â **thargedau ar gyfer gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau ochr yn ochr ag amcanion amgylcheddol ehangach** [23].

---

[16] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000*** [fel ar 23 Chwefror 2012]
[17] Llywodraeth y DU, ***Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006***, 30 Mawrth 2006 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[18] *ibid*
[19] Llywodraeth y DU, ***Mesur y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009***, 12 Tachwedd 2009 [fel ar 22 Mawrth 2012].
[20] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Mesur y Môr a Mynediad i'r Arfordir y DU 2009*** [fel ar 22 Mawrth 2012[.
[21] Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Amgylcheddol Cymru***, 17 Mai 2006 [fel ar 20 Chwefror 2012].
[22] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol***, Hydref 2008 [fel ar 22 Chwefror 2012].
[23] *ibid*

Roedd y Cynllun Gweithredu'n cynnwys camau i'w cymryd i hybu bioamrywiaeth a dargedwyd at wella cyflwr safleoedd dynodedig, gwarchod a diogelu rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth, gorfodi'r gyfraith ym maes troseddau yn erbyn bywyd gwyllt ac ymgorffori'r ddyletswydd bioamrywiaeth yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) yng ngwariant y sector cyhoeddus. Mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi un cam yn ymwneud â gwasanaethau ecosystemau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar sefydlu grŵp technegol i gynnal ymgymryd â gwaith cwmpasu cychwynnol ym maes gwasanaethau'r ecosystem a'i integreiddio yn y gwaith o reoli'r môr a'r arfordir[24].

Mae Adroddiad Cynnydd, yn seiliedig ar ymatebion cychwynnol i ymgynghoriad *Cymru Fyw*,  yn nodi y bydd y fframwaith newydd sy'n cael ei ddatblygu yn cael ei osod:

> …islaw'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy presennol ac uwchlaw'r Strategaeth Amgylcheddol a'r polisïau amgylcheddol unigol sy'n gosod allan y camau gweithredu manwl presennol.[25]

## *Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth*

Cyhoeddwyd ***Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth*** cyntaf y DU[26] yn 1994, yn dilyn y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (y Confensiwn)[27] . Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn nodi bod y cynllun hwn yn ymateb i alwad y Confensiwn i'r holl aelodau ddatblygu a gweithredu strategaethau cenedlaethol i **nodi, diogelu a gwarchod yr amrywiaeth fiolegol bresennol,  a'i gryfhau lle bo bodd** [28].

Mabwysiadwyd diweddariad i Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, yn 2007, sef *Conserving Biodiversity – the UK Approach*[29] *.* Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth  yn cynnig cynllun manwl ar gyfer diogelu adnoddau biolegol y DU, ac mae cynlluniau ategol ychwanegol ar gyfer y rhywogaethau a'r cynefinoedd hynny sydd dan y bygythiad mwayf[30]. Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn rhan o fframwaith deddfwriaethol rhyngwladol ac mae **strategaethau a rhaglenni cyflenwi ar wahân ar gyfer Llywodraeth y DU a phob un o'r gweinyddiaethau datganoledig**.

Yng Nghymru, mae'r gwaith o weithredu Cynllun Gweithredu  Bioamrywiaeth y DU yn cael ei gydgysylltu gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (y Bartneriaeth). Mae'r Bartneriaeth yn nodi  bod nifer o gyrff yn rhannu'r gwaith o weithredu'r

---

[24] *ibid*
[25] Llywodraeth Cymru, ***Adroddiad Cynnydd Cymru Fyw Chwefror 2011 Datganiad ar y Camau Nesaf a'r Egwyddorion***, Chwefror 2011 [fel ar 24 Chwefror 2012].
[26] ***Bioamrywiaeth: Cynllun Gweithredu'r DU***,1994 [fel ar 20 Chwefror 2012].
[27] Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, ***Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol*** [fel ar 24 Chwefror 2012].
[28] *ibid*
[29] Defra, ***Conserving Biodiversity – The UK Approach***, Hydref 2007 [fel ar 23 Chwefror 2012].
[30] *ibid*

Cynllun yng Nghymru, ond mai'r Bartneriaeth sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol[31].

Ym mis Mawrth 2010, mabwysiadodd y Bartneriaeth Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru a oedd yn dehongli sut y byddai blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn cael eu cyflawni yng Nghymru. Mae Fframwaith Cymru wedi'i osod yng nghyd-destun *Strategaeth Amgylcheddol Cymru* ac mae'n egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cyrff sy'n rhan o'r Bartneriaeth, yn gosod targedau i'w cyrraedd drwy gyflawni'r fframwaith ac yn amlinellu cynigion i fonitro ac adrodd ar waith y mae angen ei wneud[32]. Un nod sydd gan Fframwaith Cymru, sef **atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a'i adfer yn y pen draw.**

Caiff targedau ac amcanion bioamrywiaeth eu cyrraedd yn bennaf drwy gyfrwng y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Caiff y Cynlluniau hyn eu datblygu a'u cyflwyno gan awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol ac, yn ôl Fframwaith Cymru, drwy gydgysylltu'r gwaith o weithredu'r cynlluniau'n rhanbarthol bydd modd cymryd camau i wella bioamrywiaeth ar lefel tirwedd[33].

Nid yw'r Papur Gwyrdd yn nodi sut y bydd y gwaith yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ac nid yw'n nodi a fydd Fframwaith Cymru a/neu Strategaeth Cymru yn parhau, yn cael eu diweddaru ynteu eu disodli.

### *2.2.1. Y Trefniadau Presennol*

Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi bod y dulliau presennol o reoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru yn gymhleth[34]. Mae'n amlinellu bod o leiaf un dynodiad amgylcheddol statudol yn gymwys i draean o'r tir, traean o'r moroedd a thri chwarter o'r arfordir ar hyn o bryd, naill ai o ran gwarchod natur, priodweddau daearegol, harddwch naturiol neu arwyddocâd diwylliannol.

Yn y Papur Gwyrdd, ceir rhestr enghreifftiol o'r **dynodiadau** presennol y gellir eu cymhwyso i'r amgylchedd naturiol yng Nghymru, ac mae cyfanswm o 17 o ddynodiadau statudol ac anstatudol gwahanol[35]. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r amgylchedd naturiol (er enghraifft Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Lleol ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) neu'n anuniongyrchol drwy amcanion amgylcheddol cenedlaethol ac Ewropeaidd ehangach (fel Parthau Peryglon Nitradau, Dyfroedd Pysgod Cregyn ac Arfordir Treftadaeth).

---

[31] Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, ***Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru*** [fel ar 1 Mawrth 2012]. Mae'r Bartneriaeth ei hun yn cynnwys tua 30 o aelodau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol syddi gyd yn gyfrifol am ryw ran o'r gwaith o ddiogelu bioamrywiaeth yng Nghymru.
[32] *ibid*
[33] *Ibid*, t26.
[34] Llywodraeth Cymru, *Cynnal Cymru Fyw* , 30 Ionawr 2012, t10 [copi caled].
[35] *Ibid,* Atodiad A, Tabl 2, t32-34.

Hefyd yn y Papur Gwyrdd, ceir rhestr enghreifftiol o'r cynlluniau presennol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd ac sy'n llywio polisïau a phenderfyniadau yng Nghymru o ran yr amgylchedd naturiol [36]. Mae'r rhestr yn cynnwys cyfanswm o **12 o gynlluniau neu strategaethau statudol gwahanol** sy'n seiliedig ar bum cyfarwyddeb ryngwladol[37] a phedair o ddeddfau'r DU [38]. Mae'r cynlluniau statudol hyn wedi'u paratoi ochr yn ochr â **chwe chynllun anstatudol.** Mae **wyth corff gwahanol** yn gyfrifol am roi'r cynlluniau hyn ar waith.

O'r wyth corff gwahanol hyn, mae tri yn brif gyrff statudol[39] sy'n gyfrifol am reoleiddio a rheoli adnoddau naturiol Cymru, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru; Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru; a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Cyrff trawsffiniol yw Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth ac mae rhywfaint o'u harbenigedd a'u hadnoddau wedi'u lleoli'r tu allan i Gymru.

Yn ogystal â hyn, mae'r Papur Gwyrdd yn nodi bod y gwaith o reoli, datblygu a rheoleiddio amgylchedd naturiol Cymru hefyd yn rhan o gylch gwaith y system gynllunio, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio a datblygu tir, ac yn rhan o gylch gwaith amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd drwy'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin[40].

---

[36] *Ibid,* Atodiad A, t34-35.
[37] Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE, Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE, Cyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol, Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.
[38] Y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, Deddf yr Amgylchedd 1995 a Deddf CRoW 2000.
[39] Llywodraeth Cymru, ***Achos Busnes Un Corff Amgylcheddol yng Nghymru***, Tachwedd 2011, t9 [fel ar 21 Chwefror 2012].
[40] Llywodraeth Cymru, *Cynnal Cymru Fyw:* 30 Ionawr 2012, t10 [copi caled].

# 3. Cynnal Cymru Fyw: dull newydd o weithredu

Mae'r Papur Gwyrdd yn cynnig mabwysiadu dull o reoli'r amgylchedd naturiol ar lefel yr ecosystem. Mae'n nodi y bydd y dull newydd hwn yn gosod amcanion amgylcheddol ochr yn ochr ag amcanion economaidd a chymdeithasol. Mae'r Papur Gwyrdd o'r farn y bydd y dull newydd hwn yn annog Llywodraeth Cymru i ddod â'r dull rhanedig o reoli'r amgylchedd i ben a mabwysiadu **un dull cyson** o reoli holl adnoddau naturiol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd hyn yn galw am bolisïau sy'n rheoli'r amgylchedd fel un adnawdd integredig ac, o ganlyniad, daw â buddiannau i'r gymdeithas gyfan [41].

Mae'r papur hwn yn dilyn y ddogfen ymgynghori flaenorol, *Cymru Fyw*[42], a lansiwyd ym mis Medi 2010. Mae proses ymgynghori bellach ar y gweill ynghylch y Papur Gwyrdd, *Cynnal Cymru Fyw.* Daw'r broses i ben ar 31 Mai 2012 a disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod haf/hydref 2012.

Cafodd pwerau deddfu sylfaenol ar gyfer yr amgylchedd eu datganoli i Gymru ar ôl ychwanegu Atodlen 7 at Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi bod y pwerau newydd hyn wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru gynnig **adnewyddu'r systemau a'r dulliau rheoleiddio a rheoli presennol,** i sicrhau dulliau mwy cydgysylltiedig sydd wedi'u cynllunio'n bwrpasol[43].

Yn y Papur Gwyrdd ceir nifer o gynigion cyffredinol a datganiadau lefel uchel ar y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i reoli'r amgylchedd naturiol ond gellir nodi pedwar maes allweddol y bydd yn gweithredu arnynt, sef:

- datblygu dull rheoli ar lefel yr ecosystem;
- creu un corff amgylcheddol;
- datblygu deddfwriaeth newydd ac adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol;
- datblygu Cynllun Rheoli Adnoddau Cenedlaethol.

## *3.1. Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem*

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem a gyflwynir yn y Ppaur Gwyrdd yn cynnig:

> …strategy for the integrated management of land, water and living resources that promotes conservation and sustainable land use in an equitable way[44].

[41] Llywodraeth Cymru, ***Cynnal Cymru Fyw***, 30 Ionawr 2012, t3 [copi caled].
[42] Llywodraeth Cymru, ***Cymru Fyw***, 15 Medi 2010 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[43] Llywodraeth Cymru, ***Cynnal Cymru Fyw,*** 30 Ionawr 2012, t2 [copi caled].
[44] Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, ***The Ecosystem Approach*** [fel ar 10 Chwefror 2012].

Yn ôl y Papur Gwyrdd, prif nod y dull newydd hwn o reoli yw '**sicrhau bod gan Gymru ecosystemau sy'n cryfhau ac sy'n cynyddu yn eu hamrywiaeth gan ddarparu buddiannau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol nawr ac yn y dyfodol** [45]. Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau bod y dull newydd hwn wedi'i **seilio'n bennaf ar dystiolaeth** a gasglwyd ac a gyflwynwyd gan yr Asesiad o Ecosystemau'r Mileniwm[46] ac, yn fwy diweddar gan yr Asesiad o Ecosystemau'r DU[47], sy'n disgrifio sut y gall amgylchedd naturiol y DU fod o fudd i gymdeithas a'r economi[48].

## *3.2. Un Corff Amgylcheddol*

Mae'r Papur Gwyrdd yn dadlau y bydd cyfuno'r cyrff amgylcheddol statudol, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, **i greu un corff amgylcheddol** i Gymru, yn gyfraniad pwysig at y dull newydd o weithredu [49]. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar wahân ynghylch ffurf a swyddogaeth y corff newydd a daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 5 Mai 2012. Bydd y corff newydd yn dechrau ar ei waith ym mis Ebrill 2013, ond caiff corff cysgodol ei ffurfio yn yr haf/hydref 2012.

## *3.3. Newidiadau Deddfwriaethol Arfaethedig*

Caiff rhai mesurau a fydd yn sail i'r dull newydd o reoli adnoddau naturiol eu cyflwyno drwy **Fil yr Amgylchedd,** y **Bil Cynllunio** a'r **Bil Datblygu Cynaliadwy** [50]. Caiff y cyntaf (y Bil Datblygu Cynaliadwy) ei osod gerbron y Cynulliad yn yr hydref 2013, bwriedir gosod Bil yr Amgylchedd yn 2015 a'r Bil Cynllunio yn 2015/16[51].

Yn ogystal â chreu deddfwriaeth newydd, cynhelir adolygiad o'r rheoliadau a'r trefniadau presennol hefyd. Nod pennaf y gwaith hwn fydd '**sicrhau bod cynaliadwyedd ecosystemau yn cael ei ystyried o'r cychwyn er mwyn amddiffyn y gwasanaethau cynnal, darparu, rheoli a diwylliannol y mae ecosystemau'n eu cynnig**[52]. Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi y caiff hyn ei gyflawni drwy nodi sut y gellir cyfuno'r trefniadau a'r rheoliadau presennol i ganiatáu trwyddedau a chaniatadau unigol.

---

[45] Llywodraeth Cymru, *Cynnal Cymru Fyw*, 30 Ionawr 2012, t4 [copi caled].
[46] Dechreuodd *Asesiad o Ecosystemau'r Mileniwm* yn 2001 ar gais y Cenhedloedd Unedig, ac mae'n rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o holl ecosystemau'r byd a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, ynghyd â'r dewis i adfer, gwella neu ddiogelu'u defnydd cynaliadwy.
[47] Dechreuodd yr *Asesiad o Ecosystemau Cenedlaethol y DU* yn 2009 fel dadansoddiad cyntaf o amgylchedd naturiol y DU o ran ei ecosystemau a'r buddion y maent yn eu cynnig i gymdeithas a'r economi.
[48] Llywodraeth Cymru, *Cynnal Cymru Fyw,* 30 Ionawr 2012, t4 [copi caled].
[49] *Ibid*, t11.
[50] *ibid*
[51] *ibid*
[52] *Ibid,* t28.

Hefyd, mae'r Papur Gwyrdd yn datgan bod Llywodraeth Cymru am symleiddio a rhesymoli dyletswyddau cyrff cyhoeddus, er mwyn ceisio disodli neu integreiddio nifer ohonynt ag **un ddyletswydd gyffredinol ar gyfer datblygu cynaliadwy**[53].

O ran yr holl ddynodiadau gwarchod natur a gymhwysir yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'r Papur Gwyrdd yn cydnabod bod rhai dynodiadau statudol yn ofynnol yn ôl Cyfarwyddebau Ewropeaidd ond mae Llywodraeth Cymru yn credu bod lle i **symleiddio'r rhestr bresennol o ddynodiadau** yng Nghymru i gefnogi canlyniadau lluosog[54]. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rôl dynodiadau yn y dyfodol ac yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Ewropeaidd i symleiddio'r dynodiadau presennol:

> Bydd hyn yn seiliedig ar sicrhau amgylchedd cryfach a mwy amrywiol yn hytrach na rhoi gwarchod yr amgylchedd a datblygu benben â'i gilydd, fel sy'n digwydd yn rhy aml.[55]

### *Comisiwn y Gyfraith*

Yn ogystal â'r newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig, mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal astudiaeth gwmpasu gychwynnol i adolygu deddfwriaeth bywyd gwyllt yng Nghymru a Lloegr[56]. Disgwylir y caiff dogfen ymgynghori swyddogol ei chyhoeddi yn ystod ail hanner 2012 yn cynnig **moderneiddio a symleiddio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**[57]. Caiff canlyniadau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi a'u dadansoddi yng ngwanwyn 2013 a chaiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi yn 2014. Yn y Papur Gwyrdd, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Comisiwn y Gyfraith yn bwriadu ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn gan fod llawer o'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr yr un fath.

## *3.4. Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol*

Un o'r prif ddulliau y mae'r Papur Gwyrdd yn eu cynnig i lywio'r gwaith o reoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru yw drwy greu **Cynllun Rheoli Adnoddau Cenedlaethol.** Byddai'r cynllun hwn yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru[58] a byddai'n cyfrannu at gynllunio'r seilwaith yn ogystal â fframwaith ar gyfer buddsoddi i wella'r amgylchedd, fel creu cynefinoedd a chynnig cymelldaliadau i reoli tir yn fwy cynaliadwy[59]. Yn ôl y Papur Gwyrdd, nod y fframwaith newydd fyddai cydbwyso amcanion croes i'r gilydd a rhoi darlun cliriach i ddatblygwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Nid yw'r

---

[53] *Ibid,* t27.
[54] *Ibid,* t21.
[55] *Ibid*, t22.
[56] *ibid*, t13.
[57] Comisiwn y Gyfraith, ***Eleventh Programme of Law Reform***, 19 Gorffennaf 2011 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[58] Yn ôl Llywodraeth Cymru caiff hwn ei gyhoeddi ddiwedd mis Mai 2012.
[59] Llywodraeth Cymru, ***Cynnal Cymru Fyw***, 30 Ionawr 2012, t18 [copi caled].

Papur Gwyrdd yn esbonio sut y bydd y gwaith o gyrraedd targedau amgylcheddol y Llywodraeth yn cael ei adlewyrchu yn y fframwaith.

Mae'r Papur Gwyrdd hefyd yn nodi bod cynigion ar gyfer fframwaith gofodol newydd yn ymbellhau oddi wrth y cyd-destun cynllunio gofodol eang a amlinellir yng *Nghynllun Gofodol Cymru.* Er bod polisïau gofodol ar wahân ar gael eisoes ar gyfer ynni adnewyddadwy, llifogydd, ansawdd dŵr ac adnoddau, y seilwaith gwastraff, gwarchod tirwedd a gwarchod natur[60], mae'r Papur Gwyrdd yn nodi y bydd y Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol yn cynnig **fframwaith cyffredin ar gyfer penderfyniadau** ym mhob un o'r meysydd hyn. Nid yw'r Papur Gwyrdd yn nodi a fydd y cynllun newydd hwn yn ychwanegu at y set bresennol o bolisïau gofodol ynteu'n eu disodli.

Mae'r Papur Gwyrdd wedi'i osod yng nghyd-destun y dull rheoli ar lefel yr ecosystem, ac mae'n esbonio y bydd y fframwaith cynllunio gofodol arfaethedig hefyd yn ei gwneud yn bosibl nodi **sut y gellir goresgyn cyfyngiadau amgylcheddol er mwyn medru manteisio'n gynaliadwy ar yr amgylchedd at ddibenion economaidd gymdeithasol.** Yn ôl y Papur Gwyrdd, bydd modd buddsoddi i wella'r amgylchedd drwy'r fframwaith gofodol hwn a bydd modd cryfhau'r prif ecosystemau gan leihau'r pwysau ar y rheini a all fod yn cyrraedd eu terfynau amgylcheddol eisoes[61]. Nid yw'r Papur Gwyrdd yn esbonio sut y gellid goresgyn cyfyngiadau amgylcheddol o'r fath ac nid yw chwaith yn esbonio sut y bydd modd buddsoddi i wella'r amgylchedd.

Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cwmpas **Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol yn ystod 2013** ac y bydd y broses hon yn rhan bwysig o'r cyd-destun ar gyfer rhaglenni'r UE ar ôl 2014. Bydd y rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar amcanion EU2020 i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau yn ogystal â'r amcanion ar gyfer twf cynaliadwy, defnyddio adnoddau'n effeithlon a'r newid yn yr hinsawdd[62].

Nid yw'r berthynas rhwng dull newydd Llywodraeth Cymru o reoli adnoddau naturiol a datblygu cynllun gofodol y môr yng Nghymru yn glir ar hyn o bryd. Mae'r Papur Gwyrdd yn esbonio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried i ba raddau y gellir cysylltu'r ddau gynllun[63].

[60] *ibid*
[61] *Ibid*
[62] *ibid*
[63] *ibid*

# 4. Polisi'r Amgylchedd Naturiol yn Lloegr

Cyflwynodd Caroline Spelman, Ysgrifennydd Gwladol yr UK dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ***The Natural Choice: Securing the Value of Nature***[64] (y Papur Gwyn o hyn ymlaen) gerbron Senedd y DU ym mis Mehefin 2011. Yn ôl Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), hwn yw'r Papur Gwyn cyntaf yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol a gyflwynwyd i Senedd y DU ers 20 mlynedd ac mae'n gosod allan weledigaeth ar gyfer yr amgylchedd naturiol yn Lloegr ar gyfer y 50 mlynedd nesaf[65]. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud bod y Papur Gwyn wedi'i gynhyrchu fel ymateb i dystiolaeth newydd gref am gyflwr yr amgylchedd naturiol a ddaeth i'r amlwg yn bennaf drwy waith Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU (UK NEA) yn ddiweddar a'r ffaith na lwyddwyd i gyflawni amcanion yr EU 2010 yn ymwneud ag atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth[66].

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hefyd yn ymateb i argymhellion a amlinellwyd yn yr adolygiad, *Making Space for Nature*[67], neu Adolygiad Lawton, sef adroddiad ar gyflwr bywyd gwyllt a safleoedd natur yn Lloegr[68]. Yn ôl Defra, cynhaliwyd Adolygiad Lawton i astudio safleoedd bywyd gwyllt yn Lloegr i benderfynu a fyddent yn gallu ymateb ac addasu i'r problemau cynyddol sy'n codi oherwydd y newid yn yr hinsawdd a gofynion eraill ar dir Lloegr[69]. Mae Defra yn crynhoi argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn: **rhagor o safleoedd, a'r rheini'n fwy, yn well ac yn gydgysylltiedig**[70]. Mae'r Papur Gwyn yn esbonio bod hyn yn golygu: creu safleoedd bywyd gwyllt **newydd; cynyddu maint** safleoedd bywyd gwyllt presennol**;** sicrhau bod safleoedd bywyd gwyllt yn cael eu **rheoli'n well**; a **chreu, a gwella'r cysylltiadau** rhwng safleoedd bywyd gwyllt drwy greu coridorau bywyd gwyllt ffisegol sy'n creu dolen gyswllt uniongyrchol drwy safleoedd bywyd gwyllt llai a all fod yn gerrig sarn rhwng safleoedd mwy[71].

## *4.1. Y Dewis Naturiol: diogelu gwerth natur*

Y nod cyffredinol sydd wedi'i osod allan yn y Papur Gwyn yw **sicrhau bod y genhedlaeth hon yn gadael amgylchedd naturiol Lloegr mewn gwell cyflwr na hwnnw a etifeddodd**[72]. Mae'n amlinellu'r camau i'w cymryd i ddiogelu ac i wella'r

---

[64] Defra, ***The Natural Choice: Securing the Value of Nature***, 7 Mehefin 2011, t3 [fel ar 9 Chwefror 2012].
[65] Defra, ***New plans promise flourishing future for the natural environment***, 7 Mehefin 2011 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[66] Defra, ***The Natural Choice: What the Natural Environment White Paper means to you***, a ***The Natural Choice: What the Natural Environment White Paper means to conservation organisations*** [fel ar 16 Mawrth 2012],
[67] ***Making Space for Nature: A review of England's Wildlife Sites and Ecological Network***, 16 Medi 2010 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[68] *ibid*
[69] Defra, ***'Making Space for Nature': A review of England's Wildlife Sites published today*** [fel ar 29 Chwefror 2012].
[70] Defra, ***Government response to the Making Space for Nature review*** [fel ar 29 Chwefror 2012].
[71] Defra, ***The Natural Choice: Securing the Value of Nature***, 7 Mehefin 2011, t9 [copi caled].
[72] *ibid*, t3.

amgylchedd naturiol yn benodol ond hefyd i gyflawni amcanion economaidd a chymdeithasol drwy ryngweithio â'r amgylchedd naturiol[73].

Mae'r Papur Gwyn yn esbonio y caiff y mesurau i wella a diogelu ecosystemau Lloegr eu hyrwyddo drwy ddefnyddio dull integredig ar raddfa tirwedd:

> [The White Paper] outlines the Government's vision for the natural environment shifting the emphasis from piecemeal conservation action towards a more integrated landscape-scale approach[74].

Yn dilyn argymhellion Adolygiad Lawton, mae'r Papur Gwyn yn cynnig targedau penodol ar gyfer adfer rhwydweithiau ecolegol, sy'n canolbwyntio ar gydlynu'r amgylchedd naturiol fwyfwy yn lleol ac yn genedlaethol.   Argymhellodd Adolygiad Lawton y dylai ardaloedd eang gael eu cydnabod yn ffurfiol fel **Ardaloedd i'w Hadfer yn Ecolegol** (ERZ). Fel ymateb, bydd£7.5 miliwn ar gael i sefydlu **12 Ardal Gwella Natur** (NIA) ar hyd a lled Lloegr, lle nodwyd cyfleoedd i adfer a chysylltu natur[75].

Mae'r Papur Gwyn yn nodi bod Defra yn bwriadu ymgynghori ar y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol drafft[76] i sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at y nod o atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Cyhoeddwyd y ddogfen fframwaith ar 27 Mawrth 2012 ac mae'n disodli nifer o Ddatganiadau Polisi Cynllunio, gan gynnwys Datganiad 9: Bioamrywiaeth a Chadwraeth Ddaearegol. Mae un bennod newydd yn awr yn ymwneud â gwarchod natur ac yn canolbwyntio ar ddiogelu safleoedd dynodedig a sicrhau bod yr ardaloedd gorau ar gyfer natur yn cael ei diogelu drwy'r broses gynllunio. Gwneir hyn drwy ddatblygu safleoedd tir llwyd a safleoedd sydd â'r gwerth amgylcheddol lleiaf.

Yn y Papur Gwyn, ceir cynllun i **gyflwyno cynlluniau gwrthbwyso bioamrywiaeth**, i wneud iawn am fioamrywiaeth a gollir yn ystod gwaith datblygu, drwy ehangu neu adfer cynefin arall[77]. Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd y cynllun hwn yn wirfoddol, ac y caiff ei dreialu am ddwy flynedd (2012-2014) mewn rhai awdurdodau lleol ac y bydd yn **darparu tystiolaeth i Lywodraeth y DU** ei defnyddio i'w helpu i benderfynu a yw am ehangu'r cynlluniau gwrthbwyso ledled Lloegr.

---

[73] *ibid*

[74] Defra, ***Biodiversity 2020: A Strategy for England's Wildlife and Ecosystem Services,*** 19 Awst 2011, t4 [fel ar 2 Mawrth 2012].

[75] *Ibid,* t21.

[76] Cyhoeddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ymgynghoriad drafft  ar Fframwaith Polisi Cynullunio Cenedlaethol fel rhan o ddiwygiadau i wneud y system gynllunio'n llai cymhleth ac yn haws ei deall. Ymgynghorwyd ynghylch y ddogfen rhwng 25 Gorffennaf 2011 ac 17 Hydref 2011.

[77] Defra, ***The Natural Choice: Securing the Value of Nature***, 7 Mehefin 2011, t21 [copi caled].

## *4.2. Polisi Bioamrywiaeth*

Yn dilyn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Awst 2011, cyhoeddodd Defra ***Biodiversity 2020: A Strategy for England's Wildlife and Ecosystem Services***[78] (Strategaeth Lloegr o hyn ymlaen). Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn nodi mai'r ddogfen hon fydd yr arweiniad strategol ar gyfer polisi bioamrywiaeth yn Lloegr dros y 10 mlynedd nesaf[79].

Nod cyffredinol Strategaeth Lloegr yw **atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth, cynnal ecosystemau sy'n gweithredu'n dda a sefydlu rhwydweithiau ecolegol cydlynol**, **gan gynyddu a gwella safleoedd natur er budd bywyd gwyllt a phobl**[80]. Drwy adeiladu ar dargedau uchelgeisiol y Papur Gwyn, mae Strategaeth Lloegr yn adlewyrchu argymhellion Adolygiad Lawton yn bennaf, gan osod targedau i greu ardaloedd newydd o gynefinoedd â blaenoriaeth a gwella, cynyddu a chydgysylltu ardaloedd presennol sydd â chynefinoedd â blaenoriaeth[81]. Yn achos rhywogaethau â blaenoriaeth nad oes modd eu diogelu drwy ymdrechion i ddiogelu cynefinoedd, mae Strategaeth Lloegr yn bwriadu cymryd camau i ddiogelu rhywogaethau penodol, gan ganolbwyntio ar y rheini sydd dan y bygythiad mwyaf[82].

Yn ogystal â'r targedau cyffredinol hyn, mae Strategaeth Lloegr yn ymrwymo Llywodraeth y DU i ddatblygu a chyhoeddi set o ddangosyddion a fydd yn asesu ac yn mesur sut y caiff y strategaeth ei rhoi ar waith[83]. Bydd y dangosyddion hyn yn adeiladu ar Ddangosyddion Bioamrywiaeth Lloegr[84] a gyhoeddwyd gyntaf yn 2003 ac a ddiweddarawyd yn 2010.

## *4.3. Adolygu Dulliau o Reoleiddio'r Amgylchedd*

Ar 19 Mawrth 2012, lansiodd Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ddogfen yn dwyn y teitl *Red Tape Challenge for the Environment Theme*[85], sy'n egluro sut y bydd rheoliadau yn Lloegr yn cael eu symleiddio a'u gwneud yn fwy effeithiol[86]. Mae Defra yn nodi y bydd y cynigion yn y ddogfen yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd drwy ei gwneud yn rhatach ac yn haws i gyrff cadw at reoliadau amgylcheddol.

Mae'r cynigion ar gyfer gwarchod natur yn canolbwyntio ar adolygu Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yr UE, o ran eu heffaith ar ddatblygiadau

---

[78] Defra, ***Biodiversity 2020: A Strategy for England's Wildlife and Ecosystem Services***, 19 Awst 2011 [fel ar 2 Mawrth 2012].
[79] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Country Biodiversity Groups***, [fel ar 2 Mawrth 2012].
[80] Defra, ***Biodiversity 2020: A Strategy for England's Wildlife and Ecosystem Services,*** 19 Awst 2011, t4 [fel ar 2 Mawrth 2012].
[81] *Ibid,* t19.
[82] *Ibid*, t21.
[83] *Ibid*, t36.
[84] Defra, ***England Biodiversity Strategy Indicators***, [fel ar 2 Mawrth 2012].
[85] Defra, ***Red Tape Challenge – Environment Theme proposals***, 19 Mawrth 2012 [fel ar 22 Mawrth 2012].
[86] Defra, ***Environment protected and business boosted by cutting unnecessary red tape*** [fel ar 22 Mawrth 2012].

arfaethedig a'r baich y maent yn ei osod ar fusnesau. Yng nghyllideb 2012 a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys ar 12 Mawrth 2012, nodwyd y byddai adolygiad o'r fath yn ceisio:

> …reduce the cost, complexity and delay to businesses that the Habitats Directive can impose by preparing streamlined guidance, setting clearer standards for evidence and improving the customer focus of the statutory bodies[87].

Yng Nghyllideb 2012, cyhoeddwyd hefyd y byddai Uned Seilwaith ac Amgylchedd yn cael ei sefydlu i wella'r broses o roi prosiectau seilwaith sydd ag arwyddocâd cenedlaethol ar waith drwy nodi unrhyw anghenion cyhoeddus o bwys a sicrhau bod modd ymdrin yn gynnar ag unrhyw broblemau'n ymwneud â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Yn y ddogfen *Red Tape Challenge for the Environment Theme* nodir targedau i wella perfformiad Lloegr Naturiol ac Asiantaeth yr Amgylchedd, fel cyrff amgylcheddol yn Lloegr, gan ganolbwyntio ar gynigion i leihau neu symleiddio gwaith papur a defnyddio adnoddau ar gyfer safleoedd a busnesau sy'n wynebu'r risg mwyaf[88].

## *4.4. Cymharu Polisïau Cymru a Lloegr*

Mae polisi'r amgylchedd naturiol yn Lloegr yn dilyn fframwaith tebyg i'r fframwaith yng Nghymru; strategaeth gyffredinol ar gyfer yr amgylchedd naturiol a fframwaith ategol yn gosod y cyd-destun ar gyfer camau penodol yn ymwneud â bioamrywiaeth.

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn adlewyrchu llawer o'r cynigion yn y Papur Gwyrdd ac yn adleisio'r **newidiadau mewn meddylfryd** gan ymbellhau oddi wrth ymdrin â materion unigol a mabwysiadu dull mwy cydlynol o reoli adnoddau naturiol ar lefel yr ecosystem. Mae'r Papur Gwyn yn gosod allan y dull newydd hwn o weithredu yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r mecanweithiau presennol, ac yn cynnig dynodiadau a chynlluniau newydd i gryfhau'r amgylchedd naturiol ac i hwyluso'r broses i integreiddio cynlluniau i ddiogelu'r amgylchedd mewn cynlluniau i hybu a datblygu'r economi. Mewn cyferbyniad, mae'r Papur Gwyrdd yn gosod y dull newydd yng nghyd-destun mireinio ac integreiddio'r rheoliadau a'r mecanweithiau presennol. Mae'r Papur gwyrdd yn cynnig newidiadau cynhwysfawr yn y modd y caiff yr amgylchedd naturiol ei reoli, er mwyn ceisio lleihau cwmpas y polisi presennol gan fabwysiadu un dull unedig o wneud penderfyniadau ynghylch adnoddau naturiol.

Mae'r Papur Gwyn yn cynnig gwella dynodiadau gwarchod natur gan gyflwyno mentrau newydd ac arian i hybu dynodiadau gwarchod natur anstatudol sy'n

---

[87] *ibid*
[88] Defra, ***Red Tape Challenge – Environment Theme proposals***, 19 Mawrth 2012 [fel ar 22 Mawrth 2012].

canolbwyntio'n bennaf ar ymateb i argymhellion Adolygiad Lawton am ragor o safleoedd bywyd gwyllt, a rheini'n fwy, yn well ac yn gydgysylltiedig. Mewn cyferbyniad, mae'r Papur Gwyrdd yn cynnig newid yr arfer presennol a'r modd y dynodir safleoedd, ac yn argymell adolygu rôl dynodiadau yn ôl y dull newydd o reoli adnoddau naturiol ac ymbellhau oddi wrth yr un nod o ddiogelu safleoedd bywyd gwyllt a mabwysiadu dull sy'n arwain at ganlyniadau lluosog.

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn canolbwyntio'n bennaf ar **warchod a gwella'r amgylchedd naturiol**, yn hytrach na'r amcanion ar gyfer datblygu cynaliadwy (economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol) sef prif egwyddorion Papur Gwyrdd Cymru.

O ran strategaethau bioamrywiaeth, mae Strategaeth Lloegr a Fframwaith Cymru yn adeiladu ar y targedau cyffredin a amlinellwyd yn y Papur Gwyn a Strategaeth Cymru. Mae Strategaeth Lloegr yn rhoi rhagor o fanylion am amcanion penodol ac yn creu haen polisi newydd rhwng Strategaeth Lloegr a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

## 5. Polisi'r Amgylchedd Naturiol yn yr Alban

### *5.1. Getting the best from our land: A land use strategay for Scotland*

***Getting the best from our land: A land use strategy for Scotland*** (Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban o hyn ymlaen) yw'r strategaeth defnyddio tir gyntaf yr Alban ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd yr Alban ar 17 Mawrth 2011. Yn ôl y Llywodraeth, bydd y ddogfen yn adeiladu ar y gwaith presennol yn ymwneud â rheoli tir ac adnoddau naturiol, yn cynnig set o flaenoriaethau ar gyfer **defnyddio tir yn gynaliadwy** ac yn pwysleisio tair colofn allweddol cynaliadwyedd: yr economi; yr amgylchedd; a chymunedau[89].

Mae Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban yn cyd-fynd â nodyn gwybodaeth am gymhwyso dull yr ecosystem i ddefnyddio tir[90] a chynllun gweithredu[91] sy'n rhoi manylion mwy penodol am y modd y dylid gwneud hynny.

Dyma'r weledigaeth a geir yn Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban:

> **Scotland where we fully recognise, understand and value the importance of our land resources, and where our plans and decision about land use deliver improved and enduring benefits, enhancing the wellbeing of our nation**[92].

O'r tair thema yn y ddogfen hon, mae targedau ar gyfer diogelu'r amgylchedd a gwarchod natur i'w cael yn yr adran 'defnyddio tir a'r amgylchedd'. Un amcan sydd yn Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban; rheoli adnoddau naturiol yr Alban yn gyfrifol er budd pobl yr Alban[93]. Mae Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban yn nodi mai dull newydd pwysig o gyflawni'r amcan hwn yw drwy **integreiddio'r gwaith o warchod natur yn yr amcanion cymdeithasol ac economaidd.**

Yn ôl Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban,  mae'r cynigion ar gyfer yr amgylchedd naturiol yn cynnwys darparu gwybodaeth am sicrhau bod penderfyniadau cyrff cyhoeddus yn ymwneud â defnyddio tir wedi'u seilio ar ddull yr ecosystem a gwybodaeth am y cysylltiad rhwng newidiadau yn y modd y caiff tir ei reoli a phrosesau'r ecosystem[94].

Ceir gwybodaeth atodol yn y Cynllun Gweithredu a'r Nodyn Ecosystem i ategu'r brif Strategaeth Defnyddio Tir. Mae'r Nodyn Ecosystem yn annog cyrff i ddefnyddio dull yr ecosystem yn amlach wrth wneud penderfyniad sy'n effeithio ar

---

[89] Llywodraeth yr Alban, ***Getting the best from our land: A Guide to Scotland's first land use strategy***, 17 Mawrth 2011 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[90] Llywodraeth yr Alban, ***Applying the Ecosystems Approach to Land Use Information Note,*** 16 Mawrth 2011 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[91] Llywodraeth yr Alban, ***Getting the best from our land: A land use strategy for Scotland Action Plan***, 19 Rhagfyr 2011 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[92] Llywodraeth yr Alban, ***Getting the Best from our Land: A Land Use Strategy for Scotland***, 17 Mawrth 2011, t3 [copi caled].
[93] *Ibid*, t16-21.
[94] *ibid*

ddefnyddio tir[95] ac mae'n rhoi gwybodaeth sy'n esbonio pam a sut y gall dull yr ecosystem hybu'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn rhoi enghreifftiau o benderfyniadau sy'n seiliedig ar ddull yr ecosystem, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r ddogfen ymgynghori, *Cymru Fyw* [96].

Mae'r Cynllun Gweithredu yn rhoi gwybodaeth fanwl am y modd y bydd Llywodraeth yr Alban yn gweithredu'r cynigion a nodir yn y tair thema a geir yn Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban[97]. Mae'n nodi y bydd Llywodraeth yr Alban a'i phrif bartneriaid[98] yn mynd ati i **fapio gwasanaethau'r ecosystem** yn yr Alban ac y byddant, erbyn 2013, yn cynnig fframweithiau i sicrhau bod rheoli'r modd y caiff tir ei ddefnyddio'n rhan annatod o wasanaethau'r ecosystem ac i nodi'r prif agweddau ar y newidiadau'n ymwneud â defnyddio tir a'r newid yn yr hinsawdd[99].

## *5.2. Polisi Bioamrywiaeth*

*Scotland's Biodiversity: It's in Your Hands*[100] (y Strategaeth Bioamrywiaeth o hyn ymlaen) yw strategaeth bioamrywiaeth bresennol yrAlban ac fe'i lansiwyd ym mis Mai 2004. Mae Treftadaeth Naturiol yr Alban yn dweud bod y Strategaeth Bioamrywiaeth yn cynrychioli ymrwymiadau'r Alban i'r Confensiwn Amrywiaeth Biolegol ac i Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, ynghyd â dymuniad 'Gweinidogion yr Alban' i roi lle canolog i fioamrywiaeth yn hunaniaeth a diwylliant y wlad[101].

Cynllun 25 mlynedd yw'r Strategaeth Bioamrywiaeth a'i brif nod yw '**diogelu bioamrywiaeth i hybu iechyd, mwynhad a lles pobl yr Alban yn awr ac yn y dyfodol**'[102]. Mae'r Strategaeth Bioamrywiaeth wedi'i rhannu'n bum amcan strategol ac mae'n nodi camau penodol yn gysylltiedig â bioamrywiaeth sy'n ymdrin â chylch gwaith eang gan gynnwys gwarchod natur, ennyn diddordeb y gymuned a datblygu cynaliadwy, cymryd camau uniongyrchol i ddiogelu rhywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau gan ganolbwyntio ar atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth ac adfer a gwella bioamrywiaeth drwy wella'r broses gynllunio a rheoli tir [103].

Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn esbonio bod gan Fforwm Bioamrywiaeth yr Alban gyfrifoldeb dros roi'r Strategaeth Bioamrywiaeth ar waith, yn bennaf drwy

---

[95] Llywodraeth yr Alban, ***Applying the Ecosystems Approach to Land Use Information Note***, 16 Mawrth 2011 [copi caled].
[96] Darparwyd gan: Lywodraeth Cymru, ***Case Studies***, [fel ar 16 Mawrth 2012].
[97] Llywodraeth yr Alban, ***Getting the best from our land: A land use strategy for Scotland Action Plan***, 19 Rhagfyr 2011 [copi caled].
[98] Gan gynnwys y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Comisiwn Coedwigaeth yr Alban, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, a Threftadaeth Naturiol yr Alban.
[99] Llywodraeth yr Alban, ***Getting the best from our land: A land use strategy for Scotland Action Plan***, 19 Rhagfyr 2011 [copi caled].
[100] Llywodraeth yr Alban, ***Scotland's Biodiversity: It's in your hands***, Mai 2004 [fel ar 2 Mawrth 2012].
[101] Treftadaeth Naturiol yr Alban , ***Scottish Biodiversity Strategy*** [fel ar 2 Mawrth 2012].
[102] Llywodraeth yr Alban, ***Scotland's Biodiversity: It's in your hands***, Mai 2004 [copi caled].
[103] *Ibid*, t35.

gyfrwng Cynlluniau Gweithredu'r Alban, ac mae pum cynllun gwahanol[104]. Mae'r Strategaeth Bioamrywiaeth yn gosod cynnwys y cynlluniau gweithredu hyn, gan nodi y byddant yn cael eu diweddaru bob tair blynedd, yn adolygu'r gwaith sydd ar y gweill, yn amlinellu gwaith newydd, yn nodi pryd y dylid ymgymryd â'r gwaith, pwy sy'n gyfrifol amdano a sut y caiff hynt y gwaith ei fesur[105].

Ar hyn o bryd mae dogfen cyn ymgynghori ar gael i'w thrafod (tan fis Mawrth 2012) er mwyn datblygu Strategaeth Bioamrywiaeth newydd i'r Alban – *The 2020 Challenge for Scotland's Biodiversity*[106]. Mae Fforwm Bioamrywiaeth yr Alban yn egluro sut y mae'r gwaith o ddatblygu'r ddogfen hon yn dilyn newidiadau yn y 'cyd-destun rhyngwladol.' Mae ymgynghoriad cyhoeddus llawn a ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer haf 2012 cyn cyhoeddi'r ddogfen yn gynnar yn 2013[107]. Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi y bydd yn gydnaws â Strategaeth Defnyddio Tir bresennol yr Alban ac mai'r canlyniad cyffredinol ar gyfer 2020 fydd:

> The diversity of animals, plants and habitats is preserved, and Scotland manages the natural environment as a resource, which supports our prosperity, our welfare and our national identity[108].

## *5.3. Cymharu Polisïau Cymru a'r Alban*

Mae polisi'r amgylchedd naturiol yn yr Alban yn dilyn fframwaith tebyg i'r fframwaith yng Nghymru a Lloegr. Mae Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban yn cynnwys targedau cyffredinol uchelgeisiol ac mae'r Strategaeth Bioamrywiaeth yn ategu'r rhain drwy ddiffinio a manylu ymhellach ar y camau i'w cymryd.

Mewn cyferbyniad, mae'r cynigion yn Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban yn canolbwyntio ar y modd y **gellir defnyddio'r mecanweithiau presennol i gyflawni'r amcanion presennol,** tra bo'r Papur Gwyrdd yn ceisio creu meddylfryd newydd yn seiliedig ar ecosystemau ac yn cynnig newidiadau cynhwysfawr yn y modd y caiff yr amgylchedd naturiol ei reoli a'i reoleiddio.

Mae Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer yr amgylchedd sy'n adlewyrchu'r targedau yn y Papur Gwyrdd, gan ymdrin â themâu datblygu cynaliadwy, sef y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Fel y Papur Gwyrdd, mae Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban hefyd yn cynnig bod prosesau a gwasanaethau'r ecosystem yn cael eu cynnwys fel rhan annatod o'r broses o reoli adnoddau naturiol drwy ddefnyddio dull yr ecosystem. Fodd bynnag, mae'r modd y cymhwysir y dull hwn wedi'i osod yng nghyd-destun polisïau presennol. Caiff hyn ei adlewyrchu orau yn rhan o ddatganiad agoriadol Richard Lockhead, Ysgrifennydd Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Amgylchedd:

[104] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ***Country Biodiversity Groups*** [fel ar 9 Mawrth 2012].
[105] Llywodraeth yr Alban, ***Scotland's Biodiversity: It's in your hands***, May 2004, t 53 [copi caled].
[106] Llywodraeth yr Alban, ***The 2020 Challenge for Scotland's Biodiversity***, 2012 [fel ar 9 Mawrth 2012].
[107] Fforwm Bioamrywiaeth yr Alban, ***Scottish Biodiversity Strategy*** [fel ar 9 Mawrth 2012].
[108] Llywodraeth yr Alban, *The 2020 Challenge for Scotland's Biodiversity*, 2012 [fel ar 9 Mawrth 2012].

> It is important we do not rush headlong into irreversible decisions. Although we need to have Objectives for the long term, our first Land Use Strategy is about setting the agenda for the first five year period. Some of our Proposals tackle knowledge gaps, some propose further work. Our desire for reasonable caution has received criticism from some quarters. Yet we believe it is justifiable: to put it simply, we cannot afford to get it wrong[109].

O ran polisïau'n ymwneud yn benodol â bioamrywiaeth, mae cysylltiad cryf rhwng y Strategaeth Bioamrywiaeth a Fframwaith Cymru â'r targedau uchelgeisiol a bennwyd yn Strategaeth Defnyddio Tir yr Alban a Strategaeth Amgylchedd Cymru, ac maent yn adeiladu ar y targedau hynny. Mae'r Strategaeth Bioamrywiaeth yn gosod cyd-destun eang ar gyfer y camau i'w cymryd yn yr Alban i hybu bioamrywiaeth, ac yn cynnig targedau a gweithgareddau sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar ddiogelu bioamrywiaeth. Drwy gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu i ategu'r Strategaeth Bioamrywiaeth, cyflwynir hefyd haen newydd o bolisïau nad yw ar gael yng Nghymru gan mai drwy'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn bennaf y caiff Fframwaith Cymru ei ddehongli a'i roi ar waith.

---

[109] Llywodraeth yr Alban, ***Getting the Best from our Land: A Land Use Strategy for Scotland***, 17 Mawrth 2011, rhagair Gweinidogol.

## 6. Polisi'r Amgylchedd Naturiol yng Ngogledd Iwerddon

Lansiodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ei fframwaith newydd ar gyfer datblygu cynaliadwy, sef ***Everyone's Involved: Sustainable Development Strategy*** ym mis Mai 2010 (Strategaeth Gogledd Iwerddon o hyn ymlaen). Mae'n cyflwyno gweledigaeth ar gyfer 'cymdeithas heddychlon, deg, ffyniannus a chynaliadwy''[110].

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â'r cynllun, *Focus on the Future: Sustainable Development Implementation Plan 2011-2014*[111], sy'n amlinellu gwybodaeth ymarferol am roi'r ymrwymiadau a gyflwynwyd yn Strategaeth Gogledd Iwerddon ar waith.

### *6.1. Everyone's Involved: Sustainable Development Strategy*

Mae Strategaeth Gogledd Iwerddon yn nodi mai'r prif nod yw **nodi a datblygu'r camau i'w cymryd i wella ansawdd bwyd [pobl gogledd Iwerddon] ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**[112]. Yn ôl y ddogfen, mae'r Strategaeth yn cynnig gweledigaeth ar gyfer sut y bydd Gogledd Iwerddon yn datblygu'n gynaliadwy, ar sail nifer o egwyddorion arweiniol. Dwy egwyddor arweiniol sy'n sail i'r ddogfen. O'r rhain, mae Strategaeth Gogledd Iwerddon yn esbonio bod yr egwyddor o 'fyw o fewn terfynau amgylcheddol' yn seiliedig ar barchu terfynau adnoddau naturiol gogledd Iwerddon a diogelu a gwella pob agwedd ar yr amgylchedd naturiol[113].

O ran amcanion ar gyfer yr amgylchedd naturiol, mae Strategaeth Gogledd Iwerddon yn cynnig un maes y dylid rhoi blaenoriaeth iddo, sef **sicrhau cydbwysedd priodol rhwng defnyddio a diogelu adnoddau naturiol mewn modd cyfrifol a gwella ansawdd bywyd ac ansawdd yr amgylchedd**. Mae'r Strategaeth yn datgan bod nifer o amcanion strategol yn y maes hwn sy'n canolbwyntio at hyrwyddo dulliau cynaliadwy o reoli'r tir a'r môr, atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth a chyflawni ymrwymiadau statudol amgylcheddol ehangach[114].

Cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (DOENI) ddogfen drafod ar gyfer Strategaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2011[115]. Yn ôl y ddogfen, bydd yn pennu blaenoriaethau ar gyfer DOENI ar gyfer y 10-15 mlynedd nesaf. Nid yw'n eglur faint o gynnydd a wnaed o ran cyhoeddi dogfen ymgynghori

---

[110] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ***Everyone's Involved: Sustainable Development Strategy***, 27 Mai 2010 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[111] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ***Sustainable Development Strategy Implementation Plan***, 28 Chwefror 2011 [fel ar 17 Chwefror 2012].
[112] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ***Everyone's Involved: Sustainable Development Strategy***, 27 May 2010, t1 [copi caled].
[113] *Ibid,* t12.
[114] *Ibid*, t16.
[115] Adran yr Amgylchedd, ***An Environment Strategy for Northern Ireland Discussion Document***, 24 Mawrth 2011 [fel ar 13 Mawrth 2012].

swyddogol neu strategaeth amgylcheddol ddrafft, er bod DOENI yn dweud bod y drafodaeth anffurfiol i fod i ddod i ben erbyn 5 Mai 2011[116]. Lansiwyd proses ymgynghori swyddogol ar gyfer Papur Gwyn ar Alluogi Deddfwriaeth ar gyfer Parciau Cenedlaethol a Phapur Gwyn ar Reoliadau Amgylcheddol Gwell ym mis Mawrth 2011 a daeth i ben fis Medi 2011. Dywed DOENI mai'r ddwy ddogfen hon fydd conglfeini Strategaeth yr Amgylchedd newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Mae'r Ddogfen Drafod yn amlinellu sut y bydd dogfen y strategaeth derfynol yn targedu meysydd penodol sy'n peri pryder amgylcheddol ac yn gwneud y canlynol mewn perthynas â bioamrywiaeth:

> …incorporate a review and revision of the Northern Ireland Biodiversity Strategy (NIBS) with specific reference to ecosystem management, an approach that provides for the integrated management of land, water and living resources that promotes their conservation and sustainable use.[117]

## *6.2. Polisi Bioamrywiaeth*

Cyhoeddwyd ***Strategaeth Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon***[118] ym mis Awst 2002 fel ymateb i'r ddogfen '*Biodiversity in Northern Ireland: Recommendations to Government for a Biodiversity Strategy*[119]' a gyhoeddwyd gan Grŵp Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon (NIBG)[120]. Yn y ddogfen hon, nodwyd materion o bwys a oedd yn effeithio ar fioamrywiaeth yng ngogledd Iwerddon a gwnaed 76 o argymhellion, a rannwyd yn 12 thema[121], ar gyfer y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol a sectorau perthnasol eraill[122].

Mae Strategaeth Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon yn disgrifio ymrwymiad Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i weithredu'r camau a'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad NIBG dros gyfnod o 14 mlynedd hyd at 2016[123]. Mae'r Strategaeth yn cynnig nifer o amcanion uchelgeisiol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar **ddiogelu'r amgylchedd naturiol ac atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth** [124], a cheir hefyd restr o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth o ran cadwraeth[125].

---

[116] Adran yr Amgylchedd, ***Poots launches National Parks and Better Regulation consultations*** [fel ar 28 Mawrth 2012].
[117] Adran yr Amgylchedd, ***An Environment Strategy for Northern Ireland Discussion Document***, 24 Mawrth 2011, t3 [fel ar 13 Mawrth 2012].
[118] Adran yr Amgylchedd, ***Northern Ireland Biodiversity Strategy***, Awst 2002 [fel ar 12 Mawrth 2012].
[119] Grwp Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon, ***Biodiversity in Northern Ireland: Recommendations to Government for a Biodiversity Strategy***, Hydref 2000 [fel ar 20 Mawrth 2012].
[120] *ibid*
[121] Dyma'r 12 thema: materion bioamrywiaeth; dwr croyw; twristiaeth a hamdden; rhywogaeth estron ymledol; datblygu'r arfordir; adeiladu a datblygu; diogelu ardaloedd ar gyfer bioamrywiaeth; diogelu rhywogaethau a chynefinoedd; diogelu bioamrywiaeth genetig; gwaith ymchwil a monitro, gwybodaeth; cyfranogiad a dealltwriaeth; a gwaith lleol.
[122] Adran yr Amgylchedd, ***Northern Ireland Biodiversity Strategy*** [gwefan] [fel ar 12 Mawrth 2012].
[123] Adran yr Amgylchedd, ***Strategic Plan Framework: Environment and Conservation Biodiversity*** [fel ar 12 Mawrth 2012].
[124] Adran yr Amgylchedd, ***Northern Ireland Biodiversity Strategy***, Awst 2002 [copi caled].
[125] Adran yr Amgylchedd, ***Northern Ireland Biodiversity Strategy*** [gwefan] [fel ar 12 Mawrth 2012].

Yn ail adroddiad NIBG ar Strategaeth Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon, sef *Delivery of the Northern Ireland Biodiversity Strategy 2005-2009*[126], ceir nifer o argymhellion i wella'r modd y caiff Strategaeth Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon ei rhoi ar waith. Mae'r adroddiad yn nodi mai nod yr argymhellion yw hybu'r ymdrechion i gyflawni'r amcan cyffredinol o atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2016[127]. Mae'r cynllun *Northern Ireland Biodiversity Implementation Plan*[128] yn ategu Strategaeth Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon. Yn ôl y DOENI, mae ymrwymiad i gynhyrchu cynllun o'r fath wedi'i gynnwys yn Strategaeth Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon ac ers cyhoeddi'r cynllun gweithredu cyntaf yn 2002, bu cyfres ddi-dor o gynlluniau[129]. Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth gyfredol gogledd Iwerddon yn nodi'r hyn y dylai Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon[130] (NIEA) ei wneud rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2012. Gan adlewyrchu bob un o'r 12 thema yn argymhellion gwreiddiol NIBG.

## *6.3. Cymharu Polisïau Cymru ac Iwerddon*

Ar hyn o bryd, nid oes strategaeth swyddogol ar gyfer yr amgylchedd naturiol yng Ngogledd Iwerddon a Strategaeth Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon yw'r brif ddogfen bolisi ar gyfer gwaith yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol yn y wlad. Er bod gan Ogledd Iwerddon strategaeth datblygu cynaliadwy sy'n gosod cyd-destun eang ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, mae hyn yn debycach i Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Cymru, *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*[131], na'r Papur Gwyrdd.

Mae cynnwys dogfen drafod Strategaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon yn adlewyrchu'r tair colofn sy'n sail i'w Papur Gwyrdd: yr economi; y gymdeithas; a'r amgylchedd. O ran rheoli'r amgylchedd naturiol, mae'r ddogfen drafod yn gosod dull yr ecosystem yn bendant yng nghyd-destun Strategaeth Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon, mewn cyferbyniad â'r Papur Gwyrdd sy'n nodi mai dull yr ecosystem yw sylfaen holl ymrwymiadau Cymru mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol.

Mae Cynllun Gweithredu Strategaeth Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon yn darparu fframwaith polisi bioamrywiaeth tebyg i hwnnw sydd yn yr Alban. Mae cyd-destun eang ar gyfer gwaith yn ymwneud yn benodol â bioamrywiaeth yng Ngogledd Iwerddon, gan adlewyrchu'r amrywiol gyfrifoldebau'r NIEA. Mae Straetgaeth Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Gogledd

---

[126] Grwp Bioamrywiaeth Gogledd Iwerddon, ***Delivery of the Northern Ireland Biodiversity Strategy***, 2010 [fel ar 12 Mawrth 2012].
[127] *ibid*
[128] Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon ***Northern Ireland Biodiversity Implementation Plan***, 2009 [fel ar 12 Mawrth 2012].
[129] Adran yr Amgylchedd, ***Biodiversity Implementation Plan*** [fel ar 12 Mawrth 2012].
[130] Mae'r NIEA yn rhan o Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon ac maent yn gyfrifol am weithredu polisi amgylcheddol Gogledd Iwerddon.
[131] Llywodraeth Cymru, ***Cymru'n Un; Cymru Un Blaned Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru*** Mai 2009 [fel ar 13 Mawrth 2012].

Iwerddon yn cynnig set o amrywiol gamau i'w cymryd sy'n canolbwyntio ar yr holl feysydd lle gall, a lle mae'r NIEA yn dylanwadu ar fioamrywiaeth[132]. Mae cynllun Gweithredu Gogledd Iwerddon yn cyflwyno haen newydd o bolisïau amgylcheddol yng ngogledd Iwerddon (fel y gwnaeth y Strategaeth Bioamrywiaeth yn yr Alban) nad yw ar gael yng Nghymru, gan mai drwy'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn bennaf y caiff Fframwaith Cymru ei roi ar waith.

[132] Mae'r unedau NIEA y mae'r Cynllun Gweithredu'n cyfeirio atynt yn cynnwys: Bioamrywiaeth, Gwyddoniaeth Cadwraeth; Cyfathrebu Corfforaethol; Cefn Gwlad a'r Arfordir; Cadwraeth, Dynodiadau a Diogelu; Gweithrediadau Rhanbarthol; Uned Strategaeth; a Rheoli Dŵr.